CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 16eg o Ionawr 2026 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, Sion Evans, Ken Griffiths, Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Meirion Roberts, Aled Rees a William Rees. Danfonwyd ein cofion at Meirion a oedd yn derbyn triniaeth.
2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr 2025 ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng Rhys Parry.
4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd – darllenwyd ymatebion ers cyfarfod diwethaf.** Nodwyd ohebiaeth i law ynglyn a cau'r ffordd ger yr Ynys**.**
   b) **Mynwent yr Eglwys** – dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd fod y gwaith gan Dyfed Telecom i'w wneud diwedd mis Ionawr.
   d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - hyd yma, roedd ad-daliad gan Gyngor Gwynedd am £5188 wedi ei dderbyn. Trafodwyd gweddill y gwaith gyda'r gronfa. Pendefynwyd mynd ymlaen os oedd hynny yn bosib, gyda gwaith Liz Fenwick am £1500, a gwneud y taflenni gan 'Learletfrog' am £173. Byddai'r Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod Liz Fenwick mor fuan a phosib.
   e) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf, a chyfarfod ar y 19eg Ionawr yn Llyfrgell Tywyn.

f) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – byddai rhaid gadael tan y cyfarfod nesaf.

g) **Coeden ar y Marian** - Roedd gohebiaeth diweddaraf gan Rhydian Roberts, Swyddog Coed a choedlannau'r Parc Cenedlaethol wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr, oedd yn rhoi caniatad i dorri y goeden ar y Marian, ond ei fod angen gwybod union amser ymlaenllaw. Gwelwyd fod rhaid cael contractor i'r gwaith, ac enwebwyd sawl un allai rhoi amcangyfrifon, a byddai'r Cynghorwyr yn ymateb erbyn y tro nesaf.

h) **Yswirio Cylch y Marian** – roedd y Clerc wedi trafod gyda'r Cwmni yswiriant, ac roedd angen lluniau, a gwerth yr ased. Roedd yna nodyn yn y ffeil am hyn pan gafodd y cylch ei adnewyddu yn 2020, a oedd tua £5000. Roedd angen trafod hyn gyda Liz Fenwick, ac yna cael pris erbyn cyfarfod nesaf.

i) **Cynllun y fynwent newydd yn Pennal** – nid oedd cynllun i law, a byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

6.**Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (16.01.26), sef Cyfri Cyfredol £15,442.38 a Cyfri Cadw £ 2705.78

b) **Anfonebau i law**.

Cadarnhawyd taliad i Dyfed CCTV am £3111.60 ar gynnig Cyng. James Brunton a'i eilio gan Cyng Sion Evans.

c) **Ceisiadau am arian**

- Roedd un cais gan Marie Curie. Penderfynwyd peidio cyfrannu

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law

b) Nodwyd e-bost am Grantiau Perthyn i grwpiau cymunedol 2026.

c) Nodwyd digwyddiad cyn filwyr gan Liz Saville Roberts AS yn Caernarfon 7.02.26.

8**.Unrhyw fater arall.**

- Roedd potholes yn broblem yn y pentref, a chyfeiriwyd yn arbennig at safle ar yr A493 ynghanol y pentref.
- Adroddwyd am ddwr yn dod i'r ffordd A493 rhwng Pontarddyfi a mynediad y ffordd newydd A487, ac angen sylw ar frys.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 6ed o Fawrth 2026 yn y Ganolfan am 7.30yh.**